ddisgyblaethol a thraws adrannol. Ychwanegwyd mai'r Bwrdd Iechyd sydd yn arwain y Gwasanaeth a'i bod yn bartneriaeth gadarn a datblygiadol.

Ymhelaethwyd fod y gwasanaeth yn gweithio efo unigolion dros ddeunaw oed. Mae'r mwyafrif o'r unigolion hefo capasiti ac yn derbyn y gwasanaeth yn ddewisol. Adroddwyd ar y Prosiect Iechyd Meddwl sydd yn un o'r cynlluniau datblygol ar raglen waith y gwasanaeth. Nodwyd fod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi comisiynu ymgynghorydd i ymgymryd â'r gwaith o graffu'r adnoddau a'r gwasanaeth o fewn y ddarpariaeth gynradd. Gobeithir y bydd cynlluniau a chynigion yn deillio o'r gwaith hwn a gobeithir gallu dod â'r argymhellion hynny ger bron y Pwyllgor Craffu Gofal yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Pryderwyd sut mae unigolion yn cael mynediad i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl; adroddwyd ar un achos ble nad oedd cyfeiriad wedi ei wneud ar ran yr unigolyn. Soniwyd hefyd am achosion ble mae unigolion wedi cael tabledi yn unig gan y meddygon teulu a ni chynhigiwyd cymorth pellach.
- Ychwanegwyd fod diffyg apwyntiadau wyneb yn wyneb efo meddygon yn creu pryderon yn enwedig i'r sawl sydd ddim yn defnyddio rhaglenni fel Zoom. Mynegwyd balchder fod pethau i'w gweld yn gwella ac apwyntiadau wyneb yn wyneb yn cael eu hadfer.
- Mynegwyd fod y nifer o gyfeiriadau yn ystod 2021 yn uchel; gofynnwyd sut oedd y ffigyrau hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Holiwyd sut mae'r Adran yn mynd i'r afael â'r anawsterau recriwtio a'r prinder staff oherwydd absenoldebau a swyddi gwag sydd yn cyfrannu at restrau aros.
- Gwnaethpwyd sylw am y problemau yn y maes Iechyd Meddwl ac oddi fewn y Bwrdd Iechyd a mynegwyd pryder am fod y Cyngor mor ddibynnol ar wasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Cwestiynwyd os ydi'r Cyngor yn datgan y problemau sy'n cael eu profi ac yn herio'r Bwrdd Iechyd yn ddigonol. Roedd dymuniad i'r Cyngor gydnabod y problemau hyn a chredwyd y dylai fod wedi ei nodi yn yr adroddiad.
- Cwestiynwyd os yw'r gefnogaeth ddigonol yn cael ei roi i unigolion sy'n cael trafferthion gyda'u hiechyd meddwl.
- Pryderwyd am les meddyliol plant a pe bai hyn yn arwain at broblemau Iechyd Meddwl hir dymor; holwyd os oedd adnodd ychwanegol wedi ei roi mewn ysgolion er enghraifft i ddelio â hyn.
- Diolchwyd am yr adroddiad gan nodi y byddai derbyn diweddariad pellach yn cael ei groesawu.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod cyfeiriadau i'r Gwasanaeth fel arfer yn cael eu gwneud gan y meddygon teulu. Adroddwyd bod unigolion yn cael trafferth derbyn apwyntiad efo'u meddygon teulu yn achlysurol, mewn achosion fel hyn gellir gofyn i weithwyr eraill sy'n cefnogi unigolion i wneud y cyfeiriad. Adroddwyd fod croeso i Aelodau gysylltu yn uniongyrchol efo'r Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd ac Iechyd Meddwl os ydynt yn dymuno sgwrs bellach am achosion penodol.
- Nad oes ffigyrau cyfeiriadau i gymharu â blynyddoedd eraill ond bod nifer y cyfeiriadau yn eithaf sefydlog ar y cyfan. Nodwyd fod nifer y cyfeiriadau wedi disgyn ar ddechrau'r pandemig ond bellach yn sefydlog. Rhagwelir bydd nifer y cyfeiriadau'n cynyddu oherwydd effaith y pandemig.
- Bod recriwtio yn broblem yn enwedig yn Ne'r Sir. Nodwyd bod recriwtio yn broblem i'r Bwrdd Iechyd yn ogystal, sy'n cael effaith ar Wasanaeth y Cyngor am fod y ddau

dîm yn integredig. Eglurwyd bod trafodaethau cyson yn digwydd ac ymgyrchoedd ar draws y Gogledd yn ceisio mynd i'r afael a'r broblem hon. Ychwanegwyd bod grŵp tasg wedi ei sefydlu o fewn yr Adran i edrych ar recriwtio a cheisio denu mwy o bobl i'r swyddi.

- Bod y gwasanaeth yn deall rhwystredigaethau'r Aelodau o amgylch y maes Iechyd Meddwl a'r Bwrdd Iechyd yn benodol. Adroddwyd bod y Cyngor yn canolbwyntio ar rannau o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl a bod angen deall beth yw'r cyfraniad hwn yn y lle cyntaf. Unwaith y bydd y Cyngor yn glir am ei gryfderau yna bydd yn haws herio rhai o agweddau cyfraniad y Bwrdd Iechyd.
- Mewn ymateb i sylw os oedd y Cyngor yn gwneud digon o waith ataliol ac yn camu mewn yn amserol; nodwyd fod hyn yn rhan o'r gwaith ychwanegol sydd wedi cychwyn, bydd y gwaith yn cael ei ddatblygu dros y misoedd nesaf. Gobeithir gallu cryfhau'r ddarpariaeth a chael cynlluniau mewn lle er mwyn ymateb i'r galw.
- Ei bod yn deg i gydnabod fod angen gwneud mwy ond yr her fwyaf yw darganfod beth sy'n mynd i wneud y gwahaniaeth mwyaf ac adnabod maint y dasg. Nodwyd bod syniadau yn bodoli ond bod angen tynnu'r syniadau hynny at ei gilydd er mwyn rhoi cynllun addas a phriodol mewn lle ar gyfer llenwi'r bylchau sy'n cael eu hamlygu gan Aelodau.
- Nodwyd mai adroddiad am wasanaethau iechyd meddwl oedolion oedd yr adroddiad a gyflwynwyd. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu ar gyfer y maes plant. Pwysleisiwyd bod cydweithrediad rhwng gwasanaethau oedolion a phlant ar faterion iechyd meddwl ond bod y prif gyfrifoldebau yn gorwedd gyda'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Addysg. Ychwanegwyd bod y cydweithio rhwng Adrannau yn edrych ar beth fydd galw ar wasanaethau iechyd meddwl oedolion yn y tymor hir.

Mynegwyd awydd gan y Pwyllgor i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl ddarparu adroddiad pellach ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil sydd ar y gweill. Gobeithir bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau o fewn y 2-3 mis nesaf.

Mynegodd y Cadeirydd a'r Cyn-gadeirydd ddiolchiadau i'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Aelod Cabinet am eu cydweithrediad yn ystod y tymor diwethaf. Ategwyd diolchiadau i'r holl swyddogion o fewn yr Adran.

**PENDERFYNWYD:**

**a) Derbyn yr adroddiad oedd yn darparu trosolwg o waith y Gwasanaeth Iechyd Meddwl a'r datblygiadau ar gyfer 2022-23.**

**b) Gofyn am adroddiad arall ymhen 3-4 mis ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil 'Prosiect Iechyd Meddwl' fydd wedi ei gynnal.**

## 6. CYNLLUN GWEITHREDU TAI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Tai ac Eiddo a chynhigiwyd diweddariad ar rai o brif brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai gafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2020.

Adroddwyd ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ers mabwysiadu'r Cynllun ym mis Ebrill 2021, oedd yn cynnwys adeiladu 89 tŷ cymdeithasol a dod 41 o dai gwag yn ôl i ddefnydd. Derbyniwyd trosolwg o brosiectau a meysydd unigol gan fanylu ar y cynnydd sydd wedi ei wneud a'r camau sydd ar y gweill.

Cyfeiriwyd at yr heriau sy'n cael eu hwynebu gan yr Adran megis y cynnydd sylweddol yn y nifer o gyflwyniadau digartref a dderbyniwyd ac amlinellwyd ar y datblygiadau sydd ar y

gweill i ddelio â'r heriau hyn. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y prosiect Siop un Stop a'r cam nesaf o adnabod modelau gwahanol ar gyfer gweithrediad yr uned. Yn dilyn casglu gwybodaeth ac ymgynghori bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno ar yr opsiynau gwahanol.

Ategwyd pwysigrwydd cyfathrebu ac adrodd ar lwyddiannau'r Cynllun Gweithredu Tai gan ychwanegu bod tudalen eisoes wedi ei sefydlu ar y Fewnrwyd Aelodau er mwyn cyhoeddi diweddariadau i Aelodau. Ychwanegwyd y byddai'r Adran yn croesawu'r cyfle i ddychwelyd at y Pwyllgor Craffu yn y dyfodol i roi diweddariad pellach ar gynnydd y Cynllun. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Diolchwyd am adroddiad manwl a Chynllun uchelgeisiol sy'n adnabod ac ymateb i broblemau Tai'r Sir.
- Mynegwyd gwerthfawrogiad am waith yr Adran a mynegwyd balchder yn yr hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma. Edrychwyd ymlaen at yr hyn gellir ei gyflawni yn y dyfodol.
- Nodwyd nad oedd nifer o dai yn ardal Blaenau Ffestiniog yn cyrraedd y safon briodol; serch hyn roedd y tai yn cael eu rhentu i drigolion am nad oedd eiddo o safon well ar gael. Holiwyd os yw Swyddogion o fewn yr Uned Dai yn parhau i ymweld ag eiddo rhent preifat er mwyn gwirio eu safon a chost y rhent fel yn y gorffennol. Cwestiynwyd os oedd y Cynllun yn mynd i'r afael a thai anaddas.
- Gofynnwyd sut mae'r Cyngor yn cydweithio efo Rent Smart Wales. Credwyd bod y sefydliad hwn yn nodi safonau disgwyliedig ond fod pobl yn derbyn tai o safon is oherwydd prinder eiddo yn y Sir.
- Gofynnwyd beth oedd y rhesymau dros y nifer isel o'r ymatebion a dderbyniwyd pan gafodd dros 300 o lythyrau eu gyrru at berchnogion tai gwag ar draws y Sir. Holwyd ymhellach pryd ddaeth y 41 o dai gwag yn ôl i ddefnydd.
- Gwnaethpwyd sylw fod llawer mwy o'r grantiau tai gwag i brynwyr tro cyntaf wedi eu rhoi i ymgeiswyr o ardal Arfon o gymharu ag ymgeiswyr o Dde'r Sir. Holwyd os oedd yna restr aros ar gyfer Meirionnydd neu reswm pan nad oedd pobl o Dde'r Sir yn ymgeisio am y grantiau hyn. Tybiwyd y dylid gwneud mwy i hyrwyddo'r grantiau yma yn Ne'r Sir.
- Arsylwyd bod rhaid i bobol fod yn wynebu digartrefedd o fewn 56 diwrnod cyn cael eu hadnabod fel bod mewn perygl o ddigartrefedd ond bod rhybuddion i adael weithiau yn cael eu rhoi 6 mis ymlaen llaw. Gofynnwyd beth mae'r adran yn ei wneud er mwyn ceisio helpu'r bobl hyn cyn y cyfnod 56 diwrnod.
- Mynegwyd rhwystredigaeth cysylltu â derbyn ymatebion gan rai o'r Cymdeithasau Tai. Nodwyd y byddai Aelodau yn dymuno cael gwybod pa dai cymdeithasol sydd yn mynd i ddod yn wag ond nad yw'r wybodaeth yma fel arfer yn cael ei ddarparu gan y Cymdeithasau Tai.
- Mynegwyd fod rhai Aelodau yn aros yn hir i dderbyn ymateb i'w hymholiadau gan y Tîm Opsiynau Tai ac wedi profi trafferthion cysylltu â'r tîm. Nodwyd fod y cyhoedd hefyd wedi profi'r rhwystredigaeth hon a chredwyd fod diffyg cyfathrebu gan y tîm. Holwyd am farn y Pennaeth Tai ac Eiddo ar y sefyllfa.
- Cyfeiriwyd at y gosodiad statudol gafodd ei osod gan Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod y pandemig oedd yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol gartrefu unrhyw un a gyflwynai'n ddigartref a thybiwyd fod hyn yn heriol i'r Uned Ddigartrefedd. Gofynnwyd a yw hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y graff ar dudalen 20 o'r pecyn a beth fydd yn digwydd petai'r Llywodraeth yn codi'r Ddeddf hon.

- Teimlwyd ei bod yn bwysig hyrwyddo’r Cynllun Gweithredu Tai a bod gan yr Aelodau ran i’w chwarae. Awgrymwyd y dylai Aelodau hyrwyddo’r Cynllun drwy eu Cynghorau Cymuned a Thref.
- Credwyd fod cynnydd da iawn wedi ei wneud ers mabwysiadu’r Cynllun. Adroddwyd fod amryw o ffigyrau calonogol yn yr adroddiad. Dymunwyd derbyn rhagor o wybodaeth h.y. ble cafodd yr 89 tŷ cymdeithasol eu hadeiladu.

Mewn ymateb i’r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Nad oedd yr hen drefn o osod rhenti bellach yn bodoli. Nodwyd fod oddeutu 9,000 o dai rhent preifat yng Ngwynedd ac mai nifer fach o’r landlordiaid hyn sy’n creu trafferthion. Adroddodd y Pennaeth Tai ac Eiddo bod tîm o Swyddogion o fewn y gwasanaeth yn gyfrifol am archwilio safonau tai. Gofynnwyd i’r Aelodau gysylltu â’r gwasanaeth os ydynt yn ymwybodol o unrhyw dai problemus. Ychwanegwyd bod y tîm ar gael i ymgymryd ag archwiliadau unrhyw adeg.
- Bod yr Adran Dai yn gweithio yn agos iawn efo Rent Smart Wales. Nodwyd bod 90% o dai sydd yn cael eu rhentu yng Ngwynedd wedi cofrestru efo Rent Smart Wales. Ychwanegwyd fod y sefydliad yn rhoi cydnabyddiaeth o wiriad ar y person (landlord) ond yn ddibynnol ar y Cyngor i sicrhau fod safonau'r eiddo yn cael eu cynnal. Adroddwyd nad oes rhaid datgelu safonau eiddo er mwyn gallu ei gofrestru efo Rent Smart Wales. Anogwyd yr Aelodau i gysylltu â’r Adran Dai os efo pryderon am safonau eiddo penodol.
- Nad oedd y diffyg ymateb i’r llythyrau a anfonwyd i berchnogion tai gwag yn syndod i’r Uned. Adroddwyd fod yr ymarferiad hwn o lythyru perchnogion yn digwydd yn aml a bod yr ymateb o hyd yn wael; nid yw’r Uned yn sicr pam. Nodwyd fod nifer o resymau pan fod perchnogion yn dewis cadw eu tai yn wag, mae’r rhain yn amrywio o resymau sentimental i resymau eraill fel teuluoedd yn cadw’r tai i’w plant. Ychwanegwyd fod y 300 o lythyrau gafodd eu hanfon ar draws arfordir y Sir yn unig er mwyn gweld beth fyddai’r ymateb; y cam nesaf fydd llythyru perchnogion tai gwag y Sir yn ei gyfanrwydd fydd o gwmpas 1,200. Gobeithir cael gwell ymateb i’r llythyrau hyn. Ychwanegwyd fod y 41 o dai gwag sydd eisoes wedi dod yn ôl i ddefnydd yn gyfuniad o nifer o gynlluniau ar draws y Sir e.e. benthyciadau prynwyr tro cyntaf a benthyciadau i ddod a thai yn ôl i safon.
- Bod yr un neges yn cael ei rannau ar draws y Sir a bod y grantiau tai gwag i brynwr tro cyntaf ar gael i bawb. Adroddwyd nad oes rhestr aros ac efallai bod angen hyrwyddo’r cynllun ymhellach fel bod pobl yn ymwybodol o’i fodolaeth; bydd yr Uned yn gweithredu ar hyn.
- Bod y Gwasanaeth Digartrefedd yn derbyn achosion o ddigartrefedd cyn y cyfnod statudol o 56 diwrnod. Derbynnir achosion pan gaiff y rhybudd ei gyflwyno, fel arfer o fewn 6 mis; bydd llawer o waith ataliol yn cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn cyn cyrraedd y 56 diwrnod. Adroddwyd fod y Gwasanaeth yn gallu cyfathrebu efo landlordiaid a gallu ceisio dod o hyd i dai eraill i’w cleientiaid. Ychwanegwyd fod Cyngor Gwynedd yn un o’r pedwar Cyngor Gorau ar draws y wlad am gymryd camau i atal digartrefedd.
- Bod perthynas agored rhwng y Cyngor a’r Cymdeithasau Tai gyda chyswllt rheolaidd. Croesawyd Aelodau i gysylltu â’r Adran Dai os ydynt yn cael trafferthion derbyn ymateb gan y Cymdeithasau Tai yng Ngwynedd. Ychwanegwyd nad yw gadael i Aelodau wybod pryd fydd Tai Cymdeithasol yn dod yn wag yn rhan o’r broses gosod tai cymdeithasol. Nododd yr Aelod Cabinet ei fod yntau yn awyddus i’r Cymdeithasau Tai hysbysu Aelodau o pan fydd tai cymdeithasol yn dod yn wag. Credwyd y dylid ail ofyn i'r Cymdeithasau Tai ddarparu’r wybodaeth yma ar ddechrau’r cyfnod Cyngor newydd. Nodwyd fod hyn yn rhan o’r egwyddorion o

rannu gwybodaeth y mae'r Adran yn ceisio ei gyflawni efo'r Siop un Stop a'r Fewnrwyd Aelodau.

- Bod cynnydd sylweddol wedi bod mewn ceisiadau am eiddo cymdeithasol yn ystod y flwyddyn sydd wedi arwain at oedi mewn rhai achosion o ymateb i ymholiadau'r cyhoedd ac Aelodau. Eglurwyd fod yr uned yn edrych ar ddatrysiadau i nifer o ymholiadau e.e. yn edrych ar opsiynau i ddatblygu Ap fel y gall ymgeiswyr gael mynediad uniongyrchol i'w ceisiadau. Ymddiheurwyd am yr oedi sydd wedi bod. Ychwanegwyd fod y tîm wedi bod dan bwysau a gobeithir gallu ymateb â'r sefyllfa drwy'r Siop un Stop a gwella cydweithio. Nodwyd fod datblygiadau eraill ar y gweill i ddarparu gwybodaeth uniongyrchol i Aelodau drwy'r Fewnrwyd ble bydd posibilrwydd o weld gweithgareddau diweddar mewn ardal benodol. Gobeithir y bydd y datblygiad yma yn weithredol ar ôl sefydlu'r Siop un Stop.
- Bod cynnydd yn y niferoedd o gyflwyniadau digartref yn sicr oherwydd bod y diffiniad o 'ddigartref' wedi newid yn ystod cyfnod y pandemig. Yn y gorffennol os nad oedd pobl mewn blaenoriaeth angen yna nid oedd y Gwasanaeth digartrefedd yn eu derbyn. Yn dilyn y cyfarwyddyd gan y Llywodraeth y dylai bawb sy'n cyflwyno'n ddigartref gael eu derbyn a'u cartrefu, arweiniodd hyn at gynnydd sylweddol yn y niferoedd. Adroddwyd fod y niferoedd yn parhau i gynyddu sy'n bryderus iawn. Tybiwyd fod y niferoedd cynyddol o ganlyniad i rybuddion gan landlordiaid preifat i denantiaid adel oherwydd eu bod eisiau gwerthu eu tai neu eu troi yn dai gwyliau. Nodwyd hefyd bod cynnydd wedi bod mewn nifer o dor-perthynas yn ystod y pandemig, Rhagwelir na fydd y niferoedd yn lleihau yn y dyfodol a bod gofyniad y Llywodraeth wedi cael ei wneud yn un parhaol.

Mewn ymateb i sylwi craff un o Aelodau ynghylch y ffigwr o bobl Gwynedd sydd wedi derbyn cymorth i fyw mewn tŷ yn lleol hyd yma, adroddwyd mai'r ffigwr o 1163 fel sydd wedi ei nodi ar y Fewnrwyd Aelodau sydd yn gywir. Nodwyd fod y ffigwr 1754 sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad yn gywir ar gyfer y Strategaeth Tai oedd yn weithredol ers 2019 ond mai'r ffigwr o 1163 sydd yn berthnasol ar gyfer y Cynllun Gweithredu Tai sy'n weithredol ers 2021.

Ychwanegwyd fod Aelodau yn cael eu hannog i gyfeirio at y Fewnrwyd Aelodau fydd yn cael ei diweddaru'n gyson gan yr Adran Dai. I gloi diolchwyd i'r Pwyllgor am eu holl graffu dros y blynyddoedd ac am eu hadborth positif ac adeilado ac am fod yn rhan o broses datblygu'r Cynllun Gweithredu Tai.

Mynegwyd diolch i'r Pennaeth Tai a'r Aelod Cabinet am eu gwaith yn ogystal â swyddogion yr Adran.

**PENDERFYNWYD:**

**a) Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

**b) Gofyn am ddiweddariad pellach i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar y Cynllun Gweithredu Tai flwyddyn nesaf.**

## 7. STRATEGAETH FAETHU YNG NGWYNEDD

Cafwyd rhagair i'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd yn nodi ei bod yn bleser cyflwyno diweddariad ar Strategaeth Faethu Gwynedd. Cymerwyd y cyfle i ddiolch am y mewnbwn a dderbyniwyd i ddatblygu'r strategaeth yma yn lleol ac yn Genedlaethol; ac i ddiolch i'r teuluoedd sydd yn maethu am eu gwaith arbennig ac ymroddgar. Ychwanegwyd fod Pennaeth Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd Gwynedd yn arwain ar y strategaeth ranbarthol ar ran yr awdurdodau ac yn aelod o'r grŵp llywio cenedlaethol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Gweithredol - Adnoddau Gofal gan nodi ei fod yn ddilyniant ar adroddiad a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor ar y Strategaeth Faethu Genedlaethol. Nodwyd bellach fod tîm Cenedlaethol wedi ei sefydlu fel estyniad o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol fydd yn parhau i roi ffocws i'r gwaith hwn. Adroddwyd fod y chwe Rheolwr rhanbarthol yn cyfleu'r negeseuon yn lleol ac yn sicrhau fod y rhaglen waith yn mynd yn ei flaen o fewn eu rhanbarthau a Siroedd.

Adroddwyd ar y sefyllfa maethu yng Ngwynedd gan nodi fod yr angen am leoliadau newydd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn; oherwydd hyn mae denu gofalwyr maeth newydd yn un o brif nodau'r fframwaith maethu. Pwrpas y gwasanaeth maethu yng Ngwynedd yw darparu cartref diogel a hapus i blant Gwynedd a thanlinellwyd ar flaenoriaethau'r tîm er mwyn cwrdd â'r pwrpas.

Adroddwyd bod deg gweithiwr Cymdeithasol o fewn y tîm. Bellach mae pedwar yn canolbwyntio ar y gofalwyr maeth teuluol ac yn rhoi ffocws clir i'r gwaith yno, tra bod y chwe gweithiwr cymdeithasol arall yn cefnogi ac asesu gofalwyr maeth cyffredinol. Nodwyd bod Rheolwr y Tîm Maethu yn gweithredu fel Rheolwr Datblygu Maethu ar draws rhanbarth y Gogledd am gyfran o'r wythnos, ac o ganlyniad mae dau Arweinydd Ymarfer yn arwain ar y ddau faes gwaith. Ychwanegwyd bod Swyddog Marchnata Rhanbarthol wedi ei phenodi sydd yn gyflogedig gan Wynedd ac yn gwasanaethu'r chwe awdurdod ar draws y Gogledd. Bydd y Swyddog yn gwneud gwaith pellach ar ddatblygu strategaeth recriwtio a marchnata ar draws y rhanbarth.

Ategwyd ei bod yn bwysig darganfod faint o ofalwyr fydd ei hangen er mwyn cyflawni anghenion plant yng Ngwynedd. Ychwanegodd y Rheolwr Tîm Maethu bod Gwynedd angen edrych ar gynnydd o 25% mewn gofalwr maeth er mwyn parhau i fod mewn sefyllfa sefydlog; dangosa hyn pa mor hanfodol yw'r gweithgareddau recriwtio.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Diolchwyd i'r Uned am eu gwaith da a mynegwyd gwerthfawrogiad i'r rhieni maeth.
- Credwyd fod y brandio Maethu Cymru yn dal llygad ac yn sefyll allan ar draws y cyfryngau cymdeithasol.
- Cydnabyddwyd gwaith caled y tîm wrth geisio ymateb i'r her recriwtio a chroesawyd penodiad y swyddog marchnata rhanbarthol. Gwnaethpwyd sylw am y lleihad bychan yn niferoedd y gofalwyr oherwydd ymddeoliadau ond ei bod yn galonogol clywed am y gwaith marchnata a recriwtio sy'n cael ei wneud.
- Holiwyd os ydyw yn anoddach dod o hyd i rieni maeth i faethu plant hŷn er enghraifft plant yn eu harddegau o gymharu â phlant iau, ac os oes yna ymgyrch i ddenu rhieni maeth plant hŷn. Holiwyd hefyd os ydyw yn anoddach dod o hyd i rieni maeth sy'n siarad Cymraeg ac os oes yna recriwtio penodol ar gyfer plant Cymraeg.
- Gofynnwyd a oedd syniadau newydd ynghylch recriwtio yn sgil bod yn rhan o'r strategaeth Genedlaethol.
- Mynegwyd bod clwstwr o ofalwyr maeth o amgylch ardal Bala sydd yn gefnogol o'i gilydd ac wedi datblygu yn naturiol iawn. Tybiwyd os oedd lle i ail greu hyn mewn ardaloedd eraill. Dymunai rai Aelodau dderbyn diweddariad ar hyn yn y dyfodol.
- Adroddwyd bod gan y broses gymhwyso i fod yn rhieni maeth ddelwedd o fod yn drwm, anodd a llafurus ar yr ymgeiswyr. Pryderwyd fod hyn yn digalonni ymgeiswyr ac yn eu hatal rhag cofrestru. Gofynnwyd sut y byddai'r Uned yn ymateb i honiad o'r fath ac yn annog a chefnogi ymgeiswyr.
- Nodwyd y byddai Aelodau yn hoffi clywed yn uniongyrchol gan y rhai sy'n maethu am eu profiadau ac y byddai o fudd codi ymwybyddiaeth maethu ymysg yr Aelodau.

Awgrymwyd y byddai cyflwyniad i'r Cyngor Llawn yn fuddiol er mwyn i'r holl Aelodau gael deall mwy am fanteision maethu a sut gall yr Aelodau helpu yn yr ymdrech recriwtio.

- Holiwyd os yw rhieni maeth yng Ngwynedd yn cael llai o daliad o gymharu â rhieni maeth mewn ardaloedd eraill.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Ei bod yn anoddach recriwtio rhieni maeth ar gyfer plant oedran hŷn ond fod y tîm wedi bod yn ffodus i gael gofalwyr profiadol sydd â llawer i gynnig i blant hŷn. Nodwyd fod y tîm yn ceisio amlygu'r angen am rieni maeth i blant hŷn ond ddim yn hollol siŵr sut i ddenu'r niferoedd sy'n ddymunol. Adroddwyd os na all y tîm gyflawni'r anghenion yn fewnol o fewn y ddarpariaeth yna byddant yn edrych ar y sector breifat annibynnol, ychwanegwyd nad hyn yw'r nod.
- Yng Ngwynedd, fod ffocws yn cael ei roi ar recriwtio rhieni maeth Cymraeg iaith gyntaf ond fod heriau yn bodoli oherwydd demograffig y bobl sydd yn dueddol o faethu. Mae'r tueddiadau traddodiadol hyn yn cynnwys pobl sydd wedi ymddeol yn gynnar neu wedi symud i'r ardal ac mewn sefyllfa ariannol i fedru maethu. Nodwyd fod ymdrechion yn cael ei wneud i fod yn fwy hyblyg a chefnogol; adroddwyd fod llwyddiannau i'w gweld yn ddiweddar ble roedd mwy o rieni iau yn eu tridegau wedi cofrestru fel rhieni maeth. Credwyd fod Gwynedd yn gwneud ychydig yn well na'r tueddiadau Cenedlaethol o ran recriwtio amrywiaeth o rieni maeth.
- Nad oes gymaint o bwyslais ar ddarganfod syniadau newydd ond yn hytrach marchnata; yma fyddi rôl y swyddog marchnata rhanbarthol yn amlygu ei hun, sef edrych ar sut i farchnata'r syniadau sydd yn bodoli eisoes. Credwyd bod angen rhoi pwyslais ar sut i farchnata'n strategol gyda ffocws penodol ar bwy y bwriedir ei dargedu o ran demograffeg ac yn ddaearyddol; gobeithir wedyn gallu recriwtio'n well.
- Bod y sefyllfa yn Bala wedi datblygu yn organig heb lawer o ymyrraeth gan yr Uned. Adroddwyd bod cymuned glos iawn o ofalwyr maeth wedi datblygu yn yr ardal gyda rhywfaint o gefnogaeth ac anogaeth gan y tîm maethu. Nodwyd bod hyn yn rhywbeth mae'r tîm â'r Swyddog Marchnata yn awyddus i edrych arno i ddarganfod sut ddatblygodd y cysylltiadau o fewn y gymuned. Bydd astudiaeth achos yn cael ei gwblhau drwy siarad efo rhieni maeth yr ardal. Soniwyd bod cynlluniau cyn Cofid19 i drefnu cyfarfodydd i rieni maeth gyfarfod ei gilydd; bwriedir ail afael yn y trefniadau hyn yn ogystal â threfnu Diwrnod Maethu yn yr Haf i rieni maeth, y plant a'r Swyddogion. Ychwanegwyd mai un o'r adnoddau gorau o ran marchnata yw'r rhieni maeth a bod cynlluniau i wneud mwy o ddefnydd o'r rhieni maeth e.e. drwy ymgyrchoedd lleol a rhanbarthol. Bydd y Swyddog Marchnata yn edrych ar y cyfleoedd hyn.
- Bod y rheoliadau o fewn y Ddeddf yn golygu bod rhaid i'r Uned ymgymryd â gwiriadau trylwyr sy'n cynnwys edrych ar gefndir rhieni maeth posib er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Nodwyd bod y Swyddogion sy'n gwneud yr asesiadau yn egluro'r broses yn glir i'r ymgeiswyr fel eu bod yn ymwybodol o'r broses. Nodwyd bod y tîm yn edrych ar rinweddau a nodweddion unigolion sy'n eu gwneud yn addas i faethu. Ychwanegwyd y gall y broses fod yn hir gydag asesiadau yn cymryd o gwmpas 6 mis i'w cwblhau. Eglurwyd fod y gwiriadau DBS yn gallu arafu'r broses ond o ganlyniad i newidiadau diweddar gellir cwblhau'r gwiriadau hyn ar lein sydd yn cyflymu'r broses rhywfaint. Adroddwyd fod y Swyddogion yn ceisio ymateb i unrhyw ymholiad yn esbonio'r gofynion ac yn parchu sensitifrwydd y broses a pa mor heriol ydyw ar ddarpar rieni maethu. Yn ogystal, nodwyd bod holl weithwyr cymdeithasol y tîm wedi ennill cymhwyster ychwanegol DDP a bod gwelliannau wedi eu gwneud yn ddiweddar o ran cyflymder asesu ceisiadau gyda rhai yn cael eu cwblhau o fewn 4-5 mis.

- Ei bod yn ofynnol i'r holl Aelodau gwblhau hyfforddiant Rhiant Corfforaethol a'i fod yn syniad da i ychwanegu profiadau rhieni maeth i'r hyfforddiant hwn. Gellir hefyd gweld os ydi'n bosib cael person ifanc i fynychu'r hyfforddiant er mwyn rhoi eu profiadau a'u safbwynt o fod mewn gofal maeth yng Ngwynedd. Cymerwyd y cyfle i annog Aelodau i fynychu'r hyfforddiant Rhiant Corfforaethol gan ei fod yn gyfle i ddeall beth yw'r profiad o fod yn rhieni maeth. Ychwanegwyd bod bwriad i gynnwys gwybodaeth am Riant Corfforaethol ar y Fewnrwyd Aelodau a chroesawyd unrhyw syniadau gan Aelodau am ba wybodaeth i'w gynnwys yno.
- Bod dwy elfen i daliadau maethu sy'n cynnwys Lwfans Maethu a thaliadau ychwanegol. Nodwyd bod Gwynedd yn cwrdd â'r isafswm Lwfans maethu sydd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegwyd fod yr amrywiaeth fel arfer o ganlyniad i daliadau ychwanegol sydd yn seiliedig ar brofiad a sgiliau a'r hyfforddiant mae'r rhieni maeth yn fodlon eu cwblhau. Nid yw hwn yn daliad sy'n statudol i'w roi ond yn hytrach yn cael ei ddefnyddio i geisio denu a chadw rhieni maeth. Eglurwyd mai un o'r heriau mwyaf o ran datblygu fframwaith Cenedlaethol yw oherwydd bod gymaint o amrywiaeth rhwng y 22 Awdurdod o ran y taliadau ychwanegol. Yng Ngwynedd ceir 3 lefel sy'n seiliedig ar hyfforddiant. Ychwanegwyd fod amrywiaeth o fewn Gwynedd ymysg gofalwyr maeth sy'n perthyn i'r plant gyda rhai yn dewis peidio ymgymryd â'r hyfforddiant ac o ganlyniad ddim yn derbyn y taliad ychwanegol tra bod eraill yn ei dderbyn; yma ceir yr anghysondeb.

Mewn ymateb i sylw pellach ynglŷn â pha oedran rhieni maeth mae'r uned yn ceisio ei dargedu yn eu hymdrech recriwtio, nodwyd nad yw'r uned yn edrych ar oedran a chefndir yn uniongyrchol ond yn hytrach ar ansawdd a rhinweddau'r person a beth y gallent ei gynnig i'r plant. Eglurwyd bod cael sbectrwm eang o bobl a chefndiroedd yn amhrisiadwy i gyd fynd ag anghenion amrywiol y plant.

Adroddodd yr Aeloda Cabinet ei fod wedi cael cyfle dros y blynyddoedd i sgwrsio dros baned â'r rhieni maeth a'r plant; nododd fod y profiad yma yn gadarnhaol iawn gyda straeon hapus, positif a chalonogol yn cael eu hadrodd gan y plant gyda negeseuon cyson o ddiolch i'r rhieni maeth.

Cymerwyd y cyfle i ddiolch yn benodol i'r Cynghorydd Menna Baines am ei chyfraniad a'i gwaith ar y Panel Maethu. Diolchwyd hefyd i'r Cynghorwyr Beth Lawton ac Angela Russell sydd wedi cynrychioli'r Pwyllgor hwn yn y cyfarfodydd Herio Perfformiad am eu cyfraniad dros y blynyddoedd. Yn olaf diolchwyd i'r Cynghorwyr Dewi Roberts ac Eryl Jones-Williams am Gadeirio'r Pwyllgorau Craffu Gofal dros dymor y Cyngor. Ategwyd fod y Pwyllgor Craffu Gofal wedi bod yn rhan annatod o'r Adran Plant a'i waith a diolchwyd am gyfraniad adeiladol y Pwyllgor.

I gloi ymestynnwyd diolch gan y Pwyllgor i'r Pennaeth Adran a'r Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r holl Swyddogion am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i drafod dros y blynyddoedd.

**PENDERFYNWYD:**

**a) Derbyn yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth.**

**b) Argymell i'r Adran wahodd gofalwyr maeth a phlentyn i'r hyfforddiant Rhiant Corfforaethol fydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol.**

strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth o strategaethau comisiynu blaenorol ac asesiadau o anghenion.

4.18 O'r herwydd mae ein dull cydgynhyrchu yn golygu bod gennym ni ddogfen ASM sy'n ystyrlon ac yn seiliedig ar wybodaeth gan gynnwys amrywiaeth eang o bobl, o gymharu â dogfen wedi'i chreu ar ei phen ei hun yn ystod ymarfer pen desg, sef y dull a ddefnyddiwyd gan ardaloedd eraill yng Nghymru.

## 5 Negeseuon Lleol Allweddol

### 5.1 Preswyl a nyrsio

- Mae'r galw am leoliadau mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio yn debygol o gynyddu
- Rydym yn parhau i ddatblygu unedau dementia yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor
- Mae galw am ofal arbenigol dementia; nid oes darpariaeth nyrsio/dementia yn Meirionnydd na Llŷn
- Mae diffyg lleoliadau arbenigol preswyl a nyrsio ar gyfer pobl hŷn sydd ag anabledd dysgu ac sydd hefyd ag anghenion iechyd corfforol a dementia
- Mae angen ffioedd cartrefi gofal sydd yn gynaladwy a digonol
- Mae diffyg gweithwyr cefnogol yn y gymuned yn maes anabledd dysgu
- Nid oes darpariaeth iechyd meddwl arbenigol gan gynnwys ar gyfer awtistiaeth neu salwch meddwl difrifol
- Mae bwlch mewn gofal preswyl a nyrsio ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion corfforol a synhwyraidd

### 5.2 Byw gyda chefnogaeth

- Mae'r galw am dai gofal ychwanegol yn fwy na'r ddarpariaeth, ac mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu rhagor
- Mae'r berthynas gyda darparwyr tai â chefnogaeth yn dda, a rhwng darparwyr â'i gilydd yn dda hefyd, gyda darparwyr yn cydweithio er mwyn llenwi rotas

### 5.3 Gofal cartref

- Amcangyfrifir y bydd 1050 o bobl yng Ngwynedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi gyda thasgau byw yn annibynnol erbyn 2040, sef cynnydd o 20%
- Nid oes digon o ofal cartref i gwrdd â'r galw, yn enwedig yn ardaloedd Eifionydd a Phwllheli
- Rydym yn datblygu model gofal cartref newydd yng Ngwynedd, a fydd yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn ac yn teilwra'r gofal o gwmpas hynny

### 5.4 Gwasanaethau preswyl i blant a theuluoedd

- Mae diffyg darpariaeth yng Nghymru, ac hefyd yn Lloegr, gyda darparwyr felly yn gweithredu yn ddewisol ac yn osgoi derbyn lleoliadau plant sydd ag anghenion dwys

- Mae'r diffyg darpariaeth yn gwthio ffioedd yn uwch
- Mae angen rhagor o ddarparwyr sy'n gallu darparu gwasanaethau ddrwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae 10/16 (63%) o leoliadau preswyl plant Gwynedd wedi eu gwneud tu allan i ogledd Cymru
- Mae'r cynnydd ym mhrisiau stoc dai Gwynedd yn gwneud achos busnes yng Ngwynedd yn llai atyniadol
- Mae diffyg darpariaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion ymddygiadol ac emosiynol cymhleth

**5.5 Maethu**

- Mae cynnydd wedi bod ym mhlant Gwynedd sy'n cael eu lleoli gyda rhieni maeth yng Ngwynedd
- Mae angen tua 20 lleoliad maeth newydd bob blwyddyn er mwyn gwella darpariaeth
- Mae diffyg cyllid yn aml yn arwain at ddefnyddio darparwyr all sirol sydd yn ei dro yn arwain at gostau uwch

**5.6 Gofalwyr**

- Mae rhai gofalwyr sydd angen cefnogaeth yn ei chael yn anodd i gael gofal arall ac yn mynd am gyfnodau hir heb saib
- Mae ystod eang o gefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl yn cael ei gyllido drwy grantiau byr dymor a all arwain at ansefydlogi rhai gwasanaethau

**5.7 Gweithlu**

- 57% o'r gweithlu gofal sydd yn siaradwyr rhugl Cymraeg
- Mae recriwtio staff yn broblem ar draws y sector

5.8 Dylid nodi bod y data lleol a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer yr ASM yn newid yn barhaus a’n bod yn ystyried hynny wrth gynllunio ein gwasanaethau.

5.9 Fel y nodir uchod bydd y papurau gwaith a’r ddogfen ASM lawn yn cael eu defnyddio'n lleol i gynllunio gwasanaethau i'r dyfodol, yn enwedig wrth adfer ar ôl y pandemig. Bydd yn ddogfen allweddol i hysbysu’r Cynllun Lles lleol. Bydd hefyd yn bwydo i mewn i ddogfennau eraill, yn cynnwys y Strategaeth Gymunedol, cynlluniau Trechu Tlodi a chynlluniau Tai/Cefnogi Pobl.

## 6 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

6.1 Fel a fanylir y Ffigur 1, sefydlodd Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru grŵp llywio rhanbarthol i arwain ar y gwaith ar gyfer grwpiau technegol, ymgysylltu data a themâu eraill, er mwyn arwain ar dasgau penodol. Mae aelodaeth o grwpiau o bob awdurdod lleol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartïon eraill gyda diddordeb yn yr asesiad o anghenion megis swyddogion a gyfer y BGC.

6.2 Roedd ymgysylltu â'r ASMyn cynnwys: holiadur ar gyfer sefydliadau sy'n gofyn am eu barn a'u tystiolaeth; ymgysylltu â gwahanol ddarparwyr sector e.e. y

## 9 Risgiau ac Asesiad o Effaith

9.1 Ni fu'n bosibl cael cymeradwyaeth gan bob un o'r chwe chyngor a Bwrdd BIPBC erbyn y dyddiad gwreiddiol a roddwyd yng nghod ymarfer MSR ym mis Mehefin 2022 oherwydd yr amser sydd ei angen i gasglu data a chynnal dadansoddiad o'r farchnad yn ogystal ag amserlen cyfarfodydd llywodraethu pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd. Er mwyn lliniaru hyn, rydym wedi cysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru ynghylch amserlenni diwygiedig ac rydym hefyd wedi anfon drafft cynnar o'r ddogfen atynt er gwybodaeth.

9.2 Rhoddir yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad 2.

| **Papurau Cefndir** | **Lleoliad** | **Gwybodaeth Gwefan** |
|---|---|---|
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (2014): Cod Ymarfer | | http://www.ccwales.org.uk/codes-of-practice-and-statutory-guidance/ |

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) (yn cynnwys yr Iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol) Tachwedd 2021

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Polisi neu'r Ymarfer | Adroddiad<br>Sefydlogrwydd ar y Farchnad Gogledd Cymru | | |
| **Swyddog Cyfrifol / Pennaeth Adran** (yn gyfrifol am y Polisi neu'r Ymarfer) | Morwenna Edwards and Claire Darlington | | |
| **Gwasanaeth / Adran** | Cydweithrediad Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru | **Dyddiad Dechrau'r Asesiad** | 06/06/22 |



| **Enw'r swyddog(ion) (a phartneriaid) sy'n llenwi'r AEC** | | |
|---|---|---|
| **Enw(au)** | **Teitl(au) Swydd** | **Llofnod(ion)** |
| Catrin Perry | Rheolwr Busnes Rhanbarthol – Comisiynu a Gweithlu | |
| Sarah Bartlett | Rheolwr Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru | |
| Natalie Pryor | Rheolwr Prosiect –Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwella | |
| | Rheolwr Comisiynu, Contractau a Thrawsnewid - Cyngor Gwynedd | |
| | Rheolwr Gwasanaeth Safonau Ansawdd a Comisiynnu - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | |
| | Swyddog Ansawdd a Pholisi – Cyngor Sir Ddinbych | |
| | Swyddog Cynllunio a Datblygu - Cyngor Sir y Fflint | |

Mae'r holl gamau gweithredu sy'n deillio o'r asesiad hwn yn adlewyrchu'r anghenion a nodwyd ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig ac yn tynnu sylw at fylchau mewn gwasanaethau a fydd yn atal anghydraddoldeb wrth darparu gwasanaethau yn y dyfodol trwy strategaethau comisiynu a chynlluniau ardal.

**2. Beth yw nodau, amcanon a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?**

Mae’r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (ASF) Gogledd Cymru yn asesu’r cyflenwad a’r digonolrwydd yn y farchnad gofal cymdeithasol. Y nod yw tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau a rhoi gwybodaeth er mwyn hyrwyddo marchnad gofal cymdeithasol sy’n fwy cynaliadwy ac fe’i defnyddir fel adnodd gan gomisiynwyr i ddadansoddi’r cyflenwad a’r galw ochr yn ochr â’r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB). Pwrpas yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn yw sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd gynhwysol.

Gyda’i gilydd, mae adroddiadau’r AAB a’r ASF yn tynnu sylw at feysydd lle mae anghydraddoldebau mewn darpariaeth gofal cymdeithasol ar draws y rhanbarth ar gyfer grwpiau poblogaeth penodol, er mwyn cyfrannu at strategaeth, polisi, cynllunio ac ymarfer gofal cymdeithasol.



Mae’r ASF yn tynnu sylw at effeithiau negyddol o brinder cyflenwad yn y farchnad gofal cymdeithasol, ac bydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig a fydd yn cael ei gwireddu drwy Gynlluniau Ardal Leol, sef cynlluniau comisiynu a fydd yn pennu gweithgarwch a fydd yn effeithio ar y rheini sy’n wynebu’r risg fwyaf o anghydraddoldeb.

Bydd yr ASF yn darparu

- Gwell dealltwriaeth o ddarlun presennol y ddarpariaeth o wasanaethau ledled y rhanbarth
- Modd i ddatblygu gwasanaethau ar sail angen gwirioneddol
- Am fod yr asesiad yn cael ei wneud ar sail ranbarthol, mae’n haws i pobl â nodweddion gwarchodedig gymryd rhan ac gall ddatblygu ymateb rhanbarthol i’r asesiad a all ddod â buddion ariannol, osgoi dyblygu, ac yn y blaen.

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

*Noder: Ystyriwch gymunedau buddiant neu gymunedau lleoedd (lle mae pobl wedi'u grwpio efo'i gilydd oherwydd nodweddion penodol neu oherwydd lle maen nhw'n byw)*

- Darparwyr gofal cymdeithasol rheoleiddiedig, yn cynnwys darparwyr preifat, darparwyr y trydydd sector a darparwyr mewnol awdurdodau lleol

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | Mae galw mawr am lety byw â chymorth ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu (AAB 2022)<br><br>Mae'n bosibl y bydd y cynnydd hwn yn nifer y bobl sy'n byw yn y gymuned gyda dementia ac anghenion cymhleth yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau gofal cartref, yn enwedig pecynnau gofal â mwy nag un gofalwr. (ASF)<br><br>**<u>Oedolion ag anawsterau dysgu ac eraill sydd ag anableddau cymhleth</u>**<br><br>Mae angen mwy o dai pwrpasol i gwrdd ag anghenion penodol, yn enwedig gwasanaethau cam i fyny/cam i lawr, lle mae lleoliad wedi methu a bod angen cymorth mwy dwys ar yr unigolyn am gyfnod penodol, yn hytrach na'i dderbyn i ysbyty (AAB 2022) | **Effaith gadarnhaol:** Mae'r ASF yn darparu tystiolaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau newydd ac ehangu rhai presennol lle mae bylchau yn y ddarpariaeth.<br><br>**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.<br><br>Bydd y wybodaeth o'r ASF yn helpu comisiynwyr i gefnogi darparwyr preifat a mewnol i wella cynaliadwyedd ariannol a chynllunio cyllidebau'n effeithiol.<br><br>Bydd y wybodaeth o'r ASF yn helpu comisiynwyr i lunio strategaeth a chynlluniau i liniaru'r risg o amseroedd | Cyflyrau iechyd tymor hir eraill<br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD)<br>Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth |

Tud. 206

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | | aros hwy ac unigolion yn symud i gartrefi preswyl.<br>. | |
| **Anabledd (parhad)**<br><br>Tud. 207 | **<u>Gofalwyr di-dâl</u>**<br><br>Mae tua 79,000 o bobl o bob oed yn darparu gofal yn ddi-dâl yng Ngogledd Cymru (2011), ac rydym yn rhag-weld y bydd y nifer hwn yn cynyddu wrth i'r angen am ofal a chymorth gynyddu. Pennod yr AAB ar Ofalwyr Di-dâl. | **Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.<br><br>Mae'r wybodaeth yn yr AAB a'r ASF yn dangos bod diffyg darpariaeth yn y farchnad gofal yn arwain at alwadau ychwanegol ar ofalwyr di-dâl. Yn benodol, mae hyn yn effeithio ar gymhlethdod gofal sy'n golygu bod gofalwyr di-dâl yn profi cyfrifoldebau gofalu gydag anghenion mwy am ofal. Roedd y ffaith bod pobl yn byw'n hirach ynghyd ag effaith COVID-19 yn cynyddu'r pwysau ar ofalwyr di-dâl ymhellach. | |

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| Tud. 210 | • Canran y lleoliadau mewn cartrefi gofal sydd heb eu llenwi, 31 Mawrth 2021<br>• Lleoliadau i bobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Ngwynedd (data'r awdurdod lleol)<br>• Trosolwg o'r farchnad gofal preswyl i oedolion yn ASF Ynys Môn<br>• Nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer darpariaeth gofal preswyl arbenigol yn Sir Ddinbych (data'r awdurdod lleol)<br>• Nifer y cartrefi gofal sydd wedi cau 2019-2021 (awdurdodau lleol)<br>• Adborth gan breswylwyr cartrefi gofal<br>• Adborth gan ddarparwyr<br><br>O ganlyniad i'r ffaith bod pobl yn byw gartref yn hirach a bod y boblogaeth yn heneiddio, mae cynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion am ofal preswyl i oedolion ac yn y galw am leoliadau gofal. Nid yw'r cymysgedd presennol o ddarpariaeth gofal preswyl at anghenion cyffredinol ac arbenigol yn un sy'n cyfateb i'r galw a ragwelir yn y dyfodol (ASF) | datblygiadau i gwrdd ag anghenion hyfforddi'r gweithlu, sefydlu a datblygu gwasanaethau newydd a datblygu adeiladau i gwrdd â'r galw.<br><br>**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.<br><br>Mae pobl hŷn sydd ag angen gofal preswyl arbenigol yn fwy tebygol o:<br>• Brofi oedi cyn eu rhyddhau o'r ysbyty (Cynnydd mewn oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty)<br>• Cael eu lleoli y tu allan i'r sir<br><br>**Effaith gadarnhaol**: Mae'r ASF yn darparu mewnwelediad a all helpu darparwyr i ailbwrpasu a chreu | |

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | • Nodweddion demograffig pobl sy'n derbyn gofal cartref yn Sir y Fflint<br>• Nifer yr oriau gofal a ddychwelir gan ddarparwyr<br><br>Mae'r galw am ddarpariaeth o ofal cartref yn fwy na'r cyflenwad ohoni ym mhob ardal yng Ngogledd Cymru. Mae mwyafrif y bobl sy'n derbyn gofal cartref ledled y rhanbarth yn hŷn na 65 oed. Er hynny, mae hyn yn debygol o effeithio hefyd ar oedolion sydd â chyflyrau iechyd tymor hir ac anableddau corfforol. | • Na fydd pobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt a'u bod yn wynebu'r risg o 'lithro drwy'r rhwyd'.<br>• Symud i ofal preswyl yn lle hynny.<br>Mwy o bwysau yn achos y rheini sydd â theulu, ffrindiau neu rwydweithiau cymorth eraill iddynt dderbyn y rôl o fod yn ofalwyr di-dâl | |
| **Oedran (parhad)** | <u>**Plant a Phobl Ifanc sydd ag angen gofal preswyl**</u><br>• Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (diweddariad 2021)<br>• Lleoliadau y tu allan i'r sir (StatsCymru)<br><br>Mae mwy na 50% o'r plant mewn gofal preswyl yng Ngogledd Cymru yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir, oddi wrth rieni, brodyr a chwiorydd a rhwydweithiau cymorth, | **Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.<br><br>Yn achos plant a phobl ifanc na allant fynd i lety diogel/argyfwng oherwydd eu hanghenion emosiynol ac ymddygiadol | Sut mae eich cynnig yn ystyried oedran<br>Pobl Hŷn<br>Plant<br>Pobl Ifanc<br>Pobl o Oed Gweithio<br>Teuluoedd Ifanc<br>Demograffeg<br>DS: Os oes plant / pobl ifanc yn cael eu heffeithio, cwblhewch y Rhestr Wirio Hawliau Plant<br>'Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)<br>Cyfrifoldebau gofalu |

Tud. 213

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| **Oedran (parhad)** | a hynny'n effeithio ar y teulu cyfan (Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad)<br><br>Mae prinder:<br>• darparwyr preswyl lleol.<br>• darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth<br>• llety argyfwng | cymhleth, mae achosion o ddefnyddio ystafelloedd a136, o ymgyflwyno/derbyn amhriodol i ysbytai, o oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty ac o ddefnyddio gofal heb ei reoleiddio wedi'u nodi gan wasanaethau Plant awdurdodau lleol.<br><br>**Effaith gadarnhaol:** Mae'r ASF yn darparu gwybodaeth a all helpu comisiynwyr i newid cydbwysedd y farchnad gofal, datblygu modelau gofal newydd a chreu mwy o gapasiti gofal i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc.<br>Ceir cystadlu am leoliadau, gall darparwyr ddewis a dethol unigolion sydd â'r anghenion lleiaf cymhleth, fel y bydd y rheini sydd â'r anghenion mwyaf yn aros yn hirach i gael eu lleoli neu'n cael eu hanfon yn bellach oddi cartref. | Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth<br>Cyd-gynhyrchu |
| **Crefydd a Chred** | | **Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith | Sut mae eich cynnig yn ystyried crefydd, cred neu ddiffyg cred? |

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Hawliau Dynol** | Mae pobl mewn grwpiau Ethnig Lleiafrifol yn fwy tebygol o fod yn rhai dan gadwad o dan Ddeddf Iechyd Meddwl (Race and Mental Health – Tipping the Scale, Mind, 2019)<br><br>Mae'r cyfyngiadau a weithredwyd i reoli'r pandemig wedi cael effaith ar allu plant i arfer eu hawliau dynol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn cynnwys yr hawl i gael gofal iechyd… ac maent wedi cael llai o amddiffyniad rhag trais, cam-drin ac esgeuluso. (AAB, tudalen 76)<br><br>Yn yr adroddiad 'Locked Out: Liberating Disabled People's Lives and Rights Beyond Covid-19' (2021) nodir bod y pandemig wedi cael effaith niweidiol ar nifer o feysydd bywyd y rheini sydd ag anableddau dysgu. | **Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod. | Gweler Erthyglau Hawliau Dynol<br>Ystyriwch faterion croesdoriaeth |
| **Arall (nodwch os gwelwch yn dda)** | | **Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar | E.e., Caethwasiaeth Fodern, Diogelu, Effeithiau eraill Covid, Gofalwyr, Cyn-droseddwyr, Cyn aelodau'r lluoedd arfog, Pobl sy'n Gadael Gofal, Cam- |

